OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 3054

# Gorchymyn Fferm Wynt ar y Môr Cefnenni Tywod Scarweather 2004

## RHAN III

## CAFFAEL A MEDDU AR DIR

*Pwerau caffael*

**Y pŵer i gaffael tir**

**18.** Caiff yr ymgymerwr gaffael yn orfodol gymaint o'r tir a ddangosir â'r Rhif 4 ar blaniau'r tir ac a ddisgrifir yn y cyfeirlyfr ag sydd ei angen arno at ddibenion Gwaith Rhif 3, a chaiff ddefnyddio unrhyw dir a gaffaelwyd felly at y dibenion hynny neu at unrhyw ddiben arall sy'n gysylltiedig â'i ymgymeriad o ran trydan, neu sy'n atodol iddo.

**Cymhwyso Rhan I o Ddeddf Prynu Gorfodol 1965**

**19.**—(1) Mae Rhan I o Ddeddf 1965, i'r graddau nad yw wedi'i haddasu gan ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn nac yn anghyson â hwy, yn gymwys i gaffael tir o dan y Gorchymyn hwn—

(a) fel y mae'n gymwys i brynu gorfodol y mae Deddf Prynu Gorfodol 1981(**1**) yn gymwys iddo; a

(b) fel pe bai'r Gorchymyn hwn yn orchymyn prynu gorfodol o dan y Ddeddf honno.

(2) Mae gan Ran I o Ddeddf 1965, fel y'i cymhwyswyd, effaith fel pe bai—

(a) adran 4 (sy'n rhoi terfyn amser ar brynu tir yn orfodol) a pharagraff 3(3) o Atodlen 3 (sy'n darparu ar gyfer rhoi bondiau) wedi'u hepgor; a

(b) y cyfeiriad yn adran 11(1) (sy'n rhoi pwerau i fynd ar dir a chymryd meddiant ohono yn ddarostyngedig i hysbysiad i drafod heb roi llai na 14 o ddiwrnodau o hysbysiad) at y 14 o ddiwrnodau o hysbysiad wedi'i amnewid am—

(i) cyfeiriad at hysbysiad o un mis, pan fo'r hysbysiad i drafod yn ymwneud yn unig â chaffael isbridd neu gaffael hawddfraint neu hawl arall dros dir; neu

(ii) cyfeiriad at hysbysiad o 3 mis, mewn unrhyw achos arall.

**Y pŵer i gaffael hawliau newydd**

**20.**—(1) Caiff yr ymgymerwr gaffael yn orfodol yr hawddfreintiau hynny neu hawliau eraill dros unrhyw dir y cyfeirir ato yn erthygl 18 sydd eu hangen at unrhyw ddiben y caiff y tir hwnnw ei gaffael o'r herwydd o dan y ddarpariaeth honno, a hynny drwy eu creu yn ogystal â thrwy gaffael hawddfreintiau neu hawliau eraill sydd eisoes yn bod.

(**1**) 1981 p.67.

(2) Caiff yr ymgymerwr gaffael yn orfodol yr hawddfreintiau hynny neu unrhyw hawliau eraill dros y tir a ddangosir â Rhif au 1 i 3, 5 i 9 ac 11 ar blaniau'r tir ac a ddisgrifir yn y cyfeirlyfr ("y tir perthnasol") y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol ar gyfer ac mewn cysylltiad ag adeiladu, defnyddio, gweithredu a chynnal a chadw Gwaith Rhif 2, 2A, 4 a 5.

(3) Caiff yr ymgymerwr gaffael yn orfodol yr hawddfreintiau hynny, neu'r hawliau i ddefnyddio'r strydoedd a ddangosir â Rhif au 12 i 16 ar blaniau'r tir ac a ddisgrifir yn y cyfeirlyfr, y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol er mwyn cael mynediad at y tir at ddibenion adeiladu, defnyddio, gweithredu a chynnal a chadw y gweithfeydd awdurdodedig.

(4) Mae'r hawddfreintiau neu'r hawliau y cyfeirir atynt ym mharagraff (3) yn hawliau i ddefnyddio'r strydoedd y cyfeirir atynt yn y paragraff hwnnw sydd ar y cyd ag unrhyw bersonau eraill sydd â'r hawl i ddefnyddio'r strydoedd; ac ni ddylid dehongli dim yn yr erthygl hon fel pe bai'n rhoi'r hawl i ymyrryd â defnydd personau eraill o'r strydoedd.

(5) Yn ddarostyngedig i adran 8 o Ddeddf 1965 (fel y'i hamnewidir gan baragraff 5 o Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn), pan fo'r ymgymerwr yn caffael hawl dros dir o dan yr erthygl hon, nid yw'n ofynnol i'r ymgymerwr gaffael buddiant mwy ynddo.

(6) Mae Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn yn effeithiol at ddibenion addasu'r deddfiadau sy'n ymwneud ag iawndal a darpariaethau Deddf 1965, o ran eu cymhwyso mewn perthynas â chaffael hawl dros dir yn orfodol o dan yr erthygl hon drwy greu hawl newydd.